**NUJ MEDIA RECOVERY PLAN FOR WALES - SUMMARY**

**Background**
In April 2020, the NUJ published its News Recovery Plan as a response to the crisis caused by Covid-19 to the industry and also to reboot the media to create a more plural and diverse press and broadcasting ecology which puts public interest journalism at its heart. The union's Welsh Executive Council is now exploring with journalists, politicians, business and communities how this plan can be tailored for Wales.

**The problem**

- Welsh newspaper titles had been hollowed out before the pandemic with publishers creaming off 20-30 per cent profits instead of investing. Titles lost during pandemic include the Gem series in Vale of Glamorgan and Bridgend County Borough.
- Significant redundancies across local newspapers including at Reach and Newsquest.
- Facebook, Google and other tech giants have taken content without paying and have hoovered up online advertising revenue. The pandemic has further reduced advertising – which has hit the press at a time in the run up to Christmas when advertising is normally at its highest – and newspaper circulations have also dropped.
- Cuts in broadcasting include: BBC Wales to cut its budget by £4.5m this financial year, with 60 posts to go by April 2021; ITV advertising income fell by 42 per cent earlier this year, its capital spend is to be cut by £30m with programme budgets to be cut by £100m; S4C funding has had a net cut of £20m over the past 10 years and UK govt funding worth £7m per annum ends in 2022 - funding to be transferred to BBC.
- The pandemic has exposed the lack of plurality and independence of the press as Welsh newspapers carried advertising with Covid-19 advice for England.

**Proposals for the Welsh Government**

- Formally recognise journalism as part of the public good.

- Recognise formally that the independent media is as important as the mainstream media.
- Windfall tax on tech giants – the Recovery Plans calls for a windfall tax of 6 per cent and then a levy based on profits imposed as part of a Digital Services Tax to fund public interest journalism. The Welsh government should lobby the UK government in favour of this approach and discuss specific funding possibilities in Wales with Facebook, Google and Apple. The government should also publicly support the Australian government’s efforts to bring in a code which would force the tech giants to pay for news content.
- The establishment of a Welsh Journalism Foundation (at arms-length from the government) to invest in local news and innovative journalistic projects.
- The Department for Digital, Culture, Media & Sport made £2m in grants available via the innovation foundation NESTA to provide funding for start-ups and new models of journalism. A similar model could be followed by Wales.
- Confer ‘asset of community value’ status on local newspapers (like community pubs) ensuring titles are preserved. This would be coupled with financial and business support for local social enterprise and journalistic cooperatives taking over titles.
- Nationwide media literacy strategy to tackle online disinformation and fake news. This could be organised in conjunction with BBC, ITV, NUJ and schools of journalism.
- Vouchers for young people to purchase newspapers/news subscription - this could be limited to Welsh-based news outlets. With the elections on the horizon it is vital that 16 to 18 year olds have access to trusted news sources so they can fulfill their democratic duty.
- Apprenticeship funding for journalist training in FE sector.
- Tax credits and interest free loans to support media jobs in Wales. This money must go to frontline journalism.
- Strategic investment using the Welsh government advertising budget, including the hyperlocal sector. This should include local authorities and public sector spending.
- Employee representation of 25 per cent on executive boards for organisations in receipt of public funding.
- Help for freelances falling between government schemes and universal credit.
- Welsh Government to sign-up to NUJ Freelance Charter

NUJ's News Recovery Plan: from health crisis to good news:
https://www.nuj.org.uk/documents/from-health-crisis-to-good-news/

NUJ briefing on the impact of Covid-19 on the Welsh media/Cyfarwyddyd gan yr NUJ ar effaith Covid-19 ar y cyfryngau yng Nghymru: https://www.nuj.org.uk/documents/nuj-briefing-on-the-impact-of-covid-19-on-the-welsh/

# FREELANCE RIGHTS CHARTER

## FAIR DEAL FOR FREELANCES

**The Covid-19 crisis has further marginalised already vulnerable freelances working across the media industry – this NUJ Freelance Rights Charter demands improved protections and benefits regardless of employment status.**

**Support our call for a Fair Deal for Freelances, where all freelances have the right to:**

1. Trades union collective bargaining to improve terms and conditions for freelances side by side with staff
2. Fair written contracts free from the threat of disadvantage for asserting their rights
3. Respect for their creators' rights and unwaivable moral rights
4. Equalised rights with employees including; sick pay; maternity, paternity and parental leave; unemployment benefit; full access to benefits and social securities
5. Choice over how they freelance and are taxed, with an end to advance tax payments
6. Work free from pressure to operate on a PAYE basis, or to incorporate, or work through umbrella companies
7. Equal health and safety protections including parity of training, insurances and security provision
8. Fair fees and terms, and prompt payments
9. Dignity and respect at work, free from bullying, harassment or discrimination, with parity of access to grievance procedures
10. Equal professional rights, including the right to protect sources, seek information and uphold ethical standards

#FairDeal4Freelances

#FairDeal4Freelances

NUJ
NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

www.nuj.org.uk

**CYNLLUN ADFER Y CYFRYNGAU AR GYFER CYMRU – CRYNODEB**

Cefndir

Yn Ebrill 2020, cyhoeddodd yr NUJ ei Gynllun Adfer Newyddion fel ymateb i'r argyfwng a achoswyd i'r diwydiant gan Covid-19, a hefyd i adfywio’r cyfryngau drwy greu ecoleg ddarlledu a'r wasg sy'n fwy lluosogaethol ac amrywiol, ac sy’n gosod budd y cyhoedd wth galon newyddiaduraeth. Bellach, mae Cyngor Gweithredu Cymru’r undeb yn archwilio, ar y cyd â newyddiadurwyr, gwleidyddion, busnesau a chymunedau, sut gall y cynllun hwn gael ei addasu ar gyfer Cymru.

## Y broblem

- Roedd teitlau papurau newydd Cymreig wedi cael eu hysbeilio’n barod, cyn y pandemig, gyda'r cyhoeddwyr yn hufennu 20-30 y cant o'r elw yn lle buddsoddi. Mae'r teitlau a gollwyd yn ystod y pandemig yn cynnwys y gyfres Gem ym Mro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

- Nifer sylweddol o swyddi wedi'u dileu ar draws papurau newydd lleol, yn cynnwys yn Reach a Newsquest.

- Mae Facebook, Google a chewri technoleg eraill wedi mynd â chynnwys heb dalu amdano ac wedi traflyncu refeniw hysbysebu ar-lein. Mae'r pandemig wedi cwtogi ymhellach ar hysbysebu – gan ergydio'r wasg wrth i ni ddynesu at y Nadolig, pan fod hysbysebu ar ei uchaf fel arfer. Mae cylchrediad papurau newydd wedi gostwng hefyd.

- Mae'r toriadau mewn darlledu’n cynnwys: bydd BBC Wales yn torri ei gyllideb o £4.5m yn y flwyddyn ariannol hon, a bydd 60 o swyddi’n ddiflannu erbyn Ebrill 2021; gostyngodd incwm hysbysebu ITV o 42 y cant yn gynharach eleni, bydd ei wariant cyfalaf yn cael ei dorri o £30m, a chyllidebau rhaglenni’n cael eu torri o £100m; mae cyllid S4C wedi gweld toriad net o £20m dros y 10 mlynedd diwethaf a bydd cyllid gwerth £7m y flwyddyn gan lywodraeth y DU yn diweddu yn 2022 – trosglwyddir y cyllido i'r BBC. Mae'r pandemig wedi amlygu'r diffyg lluosogrwydd ac annibyniaeth yn y wasg wrth i bapurau newydd Cymreig gyhoeddi hysbysebion â chyngor Covid-19 ar gyfer Lloegr.

**Cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru**

- Cydnabod newyddiaduraeth yn ffurfiol fel rhan o fudd y cyhoedd.

- Cydnabod yn ffurfiol bod y cyfryngau annibynnol yr un mor bwysig â'r cyfryngau prif ffrwd.

- Treth ffawdelw ar y cewri technoleg – mae'r Cynllun Adfer yn galw am dreth ffawdelw o 6 y cant, ac yna treth seiliedig ar elw a fydd yn rhan o Dreth Gwasanaethau Digidol i ariannu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cymru lobïo llywodraeth y DU i fabwysiadu'r ymagwedd hon a thrafod posibiliadau cyllido penodol yng Nghymru gyda Facebook, Google ac Apple. Dylai'r llywodraeth hefyd ddangos ei chefnogaeth yn gyhoeddus i ymdrechion llywodraeth Awstralia i gyflwyno cod a fyddai'n gorfodi'r cewri technoleg i dalu am gynnwys newyddion.

- Creu Sefydliad Newyddiaduraeth Cymru (ar hyd braich oddi wrth y llywodraeth) i fuddsoddi mewn newyddion lleol a phrosiectau newyddiadurol blaengar.

- Cynigiodd yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon £2 filiwn mewn grantiau drwy'r sefydliad arloesi NESTA i ddarparu cyllid ar gyfer cychwyn busnesau a modelau newyddiaduraeth newydd. Gellid dilyn model tebyg yng Nghymru.

- Cyflwyno statws 'ased o werth cymunedol' i bapurau newydd lleol (fel tafarnau cymunedol) gan sicrhau bod teitlau'n cael eu diogelu. Byddai hyn ar y cyd â chymorth busnes ac ariannol fel y gallai mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol newyddiadurol lleol gymryd teitlau drosodd.

- Strategaeth genedlaethol ar gyfer llythrennedd y cyfryngau i fynd i'r afael â thwyllwybodaeth a newyddion ffug. Gellid trefnu hyn ar y cyd â BBC, ITV, yr NUJ ac ysgolion newyddiaduraeth.

- Talebau i bobl ifanc i brynu papurau newydd/tanysgrifiadau newyddion – gellid cyfyngu hyn i allfeydd newyddion sy'n seiliedig yng Nghymru. Gan fod yr etholiadau ar y gorwel, mae'n hanfodol bod pobl ifanc 16 i 18 oed yn gallu cyrchu ffynonellau newyddion dibynadwy fel y gallant gyflawni eu dyletswydd ddemocrataidd.

- Cyllid ar gyfer prentisiaethau i hyfforddi newyddiadurwyr yn y sector Addysg Bellach.

- Credydau treth a benthyciadau di-log i gefnogi swyddi yn y cyfryngau yng Nghymru. Rhaid i'r arian hwn gael ei gyfeirio at newyddiaduraeth rheng flaen.

- Buddsoddi strategol, yn defnyddio cyllideb hysbysebu llywodraeth Cymru, yn cynnwys y sector hyperleol. Dylai hyn gynnwys gwariant gan awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus.

- Cynrychiolaeth o 25 y cant i weithwyr ar fyrddau gweithredol sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.

- Cymorth i weithwyr llawrydd sy'n syrthio rhwng cynlluniau'r llywodraeth a chredyd cynhwysol.

- Llywodraeth Cymru i lofnodi Siarter Gweithwyr Llawrydd yr NUJ

Cynllun Adfer Newyddion yr NUJ: o argyfwng iechyd i newyddion da:
https://www.nuj.org.uk/documents/from-health-crisis-to-good-news/

Cyfarwyddyd gan yr NUJ ar effaith Covid-19 ar y cyfryngau yng Nghymru/
NUJ briefing on the impact of Covid-19 on the Welsh media:
https://www.nuj.org.uk/documents/nuj-briefing-on-the-impact-of-covid-19-on-the-

# SIARTER HAWLIAU GWEITHWYR LLAWRYDD

# BARGEN DEG I WEITHWYR LLAWRYDD

**Mae'r argyfwng Covid-19 wedi peri i'r gweithwyr llawrydd ar draws diwydiant y cyfryngau, sydd mewn sefyllfa fregus yn barod, gael eu hymyleiddio ymhellach. Mae'r Siarter Hawliau Gweithwyr Llawrydd hwn gan yr NUJ yn galw am amddiffyniadau a buddiannau gwell, ni waeth be fo'u statws cyflogaeth. Cefnogwch ein galwad am Fargen Deg i Weithwyr Llawrydd, lle bydd gan yr holl weithwyr llawrydd yr hawl i'r canlynol:**

1. Cydfargeinio gan undebau llafur i wella'r telerau ac amodau i weithwyr llawrydd, ar y cyd ag i staff
2. Contractau ysgrifenedig teg sy'n rhydd rhag y bygythiad o anfantais am fynnu eu hawliau
3. Parchu eu hawliau creawdwyr a'u hawliau moesol anaralladwy
4. Hawliau sy'n gyfartal â hawliau gweithwyr cyflogedig yn cynnwys: cyflog salwch; absenoldeb rhiant, mamolaeth a thadolaeth; budd-dal diweithdra; mynediad llawn at fudd-daliadau a nawdd cymdeithasol
5. Cael dewis eu dull o weithio'n llawrydd ac o gael eu trethu, gan roi terfyn ar daliadau treth ymlaen llaw
6. Gweithio'n rhydd rhag y pwysau i weithredu ar sail y Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE), neu i ymgorffori, neu weithio drwy gwmnïau ambarél
7. Amddiffyniadau iechyd a diogelwch cyfartal, yn cynnwys darpariaeth ddiogelwch, hyfforddiant ac yswiriant cyffelyb
8. Ffioedd a thelerau teg, a thaliadau cyflym
9. Urddas a pharch yn y gwaith, yn rhydd rhag bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, gyda mynediad cyffelyb at weithdrefnau cwyno
10. Hawliau proffesiynol cyfartal, yn cynnwys yr hawl i ddiogelu ffynonellau, ceisio gwybodaeth a chynnal safonau moesegol

#FairDeal4Freelances

#FairDeal4Freelances

NUJ
NATIONAL UNION OF JOURNALISTS

www.nuj.org.uk